Cyngor Bro Llanfihangel Glyn Myfyr
Cofnodion y Cyfarfod ar 5ed o Fedi 2023

Yn bresennol Generys Roberts, Helen Jones, Llyr Jones, Gethin Jones, Arwyn Ellis, Medwyn Roberts a Eryl Evans (cadeirydd) ac y cyng Gwennol Ellis.
Nid oedd neb yn datgan diddordeb or agenda.
Cofnodion blaenorol fe u harwyddwyd fel rhai cywir.
Gohebiaeth

1. Cyngor Bwrdeisdref Sirol Conwy llythyr diolch am ei cyfaniad ir llyfrgell yn Ngherrig y Drudion.
2. Cadwyn Clwyd bydd inni fod yn llwyddiannus i gael grant swm o £4695.99 tuag at welliannau ir ardal picnic ar y Gro or gronfa Brenig.
3. NNB Outdoors anfoneb am fyrdda picnic a seddi eistedd ir Gro £2454.00 pasiwyd iw dalu.
4. Cylch meithrin Cerrig y Drudion cafwyd llythyr yn gofyn am gyfraniad tuag at brynnu cadeiriau pwrpasol y gost oddeutu £135-£145 yr un – mynegwyd pa ham nad ydynt yn ceisio am grant ond pasiwyd i gyfrannu am un gadair y swm o £135.00 a fydd yn cael ei gyfrannu allan o arian – cyfraniad y Tan Gwyllt yn mis Tachwedd.
5. Carol Humphreys anfoneb am flodau ir potiau yn y safle bwsiau - £39.94 pasiwyd iw dalu.
6. Dwr Cymru anfoneb hanner blwyddyn £93.33. wedi ei dalu DD y clerc i wneud ymoliadau rhag ofn bod y pibell yn gollwng gan bod y gost yn uchel i gymharu ar hanner cynt.
7. Cyngor Bwrdeisdref Sirol Conwy yr ail precept £2,000.00
8. Ynrhyw fater arall
9. Sgip pasiwyd i gael sgip yn mis Tachwedd.
10. Tan Gwyllt pasiwyd i gynnal y Tan Gwyllt nos sadwrn 4ydd o Dachwedd am 6.00 yr hwyr, elw i Ty Gobaith, Medwyn y gyfrifol am brynnu y Tan Gwyllt ac noson y tanio yng nghofal Arwyn a Gethin. Pasiwyd gofyn i Ifor Jones, Tain Waen i fynd o amgylch i gasglu cyfraniadau.
11. Mynwent Newydd Rydym wedi bod yn llwyddiannus gyda cael arian grant i ail adnewyddu giatiau fynwent cafwyd £750 o grana Bodtegir.
12. Swper Pensiynwyr – pasiwyd i gael swper eto eleni y clerc i holi am brisiau o Saracens, Goat, Giler a Fishieries. Elw noson o werthiant raffl i Ty Gobaith, raffl rhoddedig gan y cynghorwyr,
13. Ffioedd claddu wedi derbyn £80 – claddu llwch y diweddar Emyr W Jones.
14. Parc Chwarae y Gro - trafodwyd cynllun i gael parc chwarae yn y Gro, pasiwyd ein bod yn ceisio am arian or Cronfa Allweddol Adfywio Cymunedol drwy gymoth Cyn Gwennol Ellis.
15. Y Cae peldroed mynegwyd bod angen ail wynebu a hau hadau y cae, pasiwyd i fynd am grant or Brenig y clerc i ofyn am brisiau penodwyd gofyn i Aeron Humphreys (mynegodd y clerc ei bod yn datgan diddordeb ac ni fydd yn cymeryd rhan mewn unrhyw drafodaeth ynghlyn a dewis contractwr ir cais Brenig) a hefyd pasiwyd gofyn i Hywel Jones, Clawdd Newydd roi pris ar yr un gwaith.
16. Adroddiad y Cyng Gwennol Ellis Esboniwyd mwy am y cymorth arian or C A A C . Hefyd nodwyd bod y gwaith o ddechrau ar yr allt y Crown ar y gweill am bydd rhybydd o wythnos ir cyhoedd cyn iddynt gau y ffordd. Gwasanaeth Tan ac Achub gogledd Cymru nodwyd ei bod yn bwysig ir holl aelodau ddatgan ei barn a llenwi holiadur er mwyn cryfhau achos i beidio a chau y gorsaf yn Ngherrig y Drudion.
17. Mynegwyd hefyd bod angen ail adnewyddu y parc chwarae tu ol ir tai Cyngor, gan bod y safle hwn yn berchen y Sir dywedodd Cyng Gwennol Ellis y buasai yn holli'r sir am y ffordd orau i drio am arian, gan gymeryd i sylw y traferth yr ydym yn ei gael yn y pentre gyda'r llygod mawr,mewn deiliad cyfagos.